

Cwestiwn ac Ateb - Briffio ynghylch Trefniadau Lliniaru Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 7 Medi

Cwestiwn	Ateb
Ydi C&G wedi creu unrhyw ffurflenni Parod ar gyfer Asesu (RFA) neu a oes angen i ganolfannau greu eu ffurflenni eu hunain?	Ddim ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r Consortiwm wedi datblygu Pecyn Adnoddau Asesu ar gyfer pob cymhwyster Ymarfer. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys nifer o ffurflenni ar gyfer cynllunio a chofnodi a gellid eu haddasu'n hawdd i gofnodi'r penderfyniad Parod ar gyfer Asesu.
Os gall y ganolfan ddefnyddio asesydd yn y gweithle, os nad yw wedi cael cyfarfodydd aseswyr neu os na all gael mynediad iddynt, a fydd hyn yn effeithio ar ein gallu i'w ddefnyddio?	Bydd – fel bob amser, rhaid i bob asesydd gael sesiwn gynefino a chefnogaeth gan y ganolfan, p'un ai a yw'n asesydd yn y gweithle neu'n asesydd peripatetig. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fynychu cyfarfodydd aseswyr a chyfarfodydd safoni. Amlinellir y gofyniad hwn yn glir yn: <ul style="list-style-type: none"> • Llawlyfr City & Guilds Centre Manual • Ein dogfen Gofynion Sicrwydd Ansawdd (OQAR) • Ein dogfen 'Guidance on Internal Quality Assurance'
Mae angen i ddysgwyr ar yr hen ddiploma nad oes ganddynt unrhyw dystiolaeth arsylwadol, ei chwblhau.	Byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr 'hen ddiplomâu' cyn gynted ag y gallwn, gan gynnwys unrhyw drefniadau lliniaru sydd ar gael i ddysgwyr yn y dyfodol.
Sut y gallwn ni gwblhau arsylwadau?	Yn ystod y gweminar heddiw, amlinellwyd rôl Tystiolaeth Tyst Arbenigol ac, yn ystod cyfnod penodol, sut y caniateir hyn fel dewis amgen ar gyfer arsylwadau gan aseswyr. Ar hyn o bryd, dim ond i'r cymwysterau newydd y mae hyn yn berthnasol ond rydym yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Chyrff Dyfarnu eraill i gytuno ar drefniadau lliniaru pellach ar gyfer yr hen gymwysterau h.y. yr 'hen' ddiplomâu.
O ran yr hen gymhwyster - pryd allwn ni ddisgwyl y gweminar nesaf ar ganllawiau ar gyfer yr arsylwadau nad ydynt wedi eu cynnal?	Rydym wrthi'n cwblhau'r manylion ar gyfer trefniadau lliniaru pellach ar gyfer y gyfres hon o gymwysterau. Rhaid cytuno ar y rhain ar y cyd ar draws yr holl Sefydliadau Dyfarnu perthnasol, rheoleiddwyr cymwysterau a rheoleiddwyr gweithlu yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon a sicrhau synergedd â threfniadau ar gyfer cymwysterau tebyg yn Lloegr. Unwaith y cytunir ar hyn byddwn yn cyfleu'r canlyniad a'r disgwyliadau ar gyfer canolfannau a dysgwyr.

Trefniadau lliniaru craidd – Ydi'r cwestiynau llafar ar gael?	Rhaid i bob dysgwr gwblhau o leiaf 70% o nodweddion allweddol eu cymhwyster h.y. TQT a chredydau ar draws yr Unedau Gorfodol a Dewisol. Cyfeiriwch at y tablau lliniaru yn ein dogfen ganllaw ar y wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru (HCLW)
Oes angen i ni lenwi ffurflen gais?	Bydd y Consortiwm yn diweddarau gwefan HCLW yn fuan gyda rhagor o wybodaeth ac arweiniad ynghylch y broses hon
Ydi'r ffurflen ddatganiad ar gael nawr?	Ar hyn o bryd rydym yn diweddarau pob ffurflen y bydd canolfannau'n eu defnyddio ar gyfer y broses hon. Unwaith y byddant yn barod, gellir eu cael drwy dudalennau Covid-19 ar wefan HCLW. Gofynnwn i ganolfannau beidio â defnyddio ffurflenni datganiad dysgwyr o gyfnodau lliniaru blaenorol.
A all dysgwr sydd wedi cwblhau cymhwyster Gofal, Dysgu, a Datblygiad Plant (CCLD) lefel 3 ymgymryd â'r cymhwyster Ymarfer Proffesiynol lefel 4 newydd?	Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn dibynnu ar rôl a swyddogaeth o fewn y lleoliad ac nid ar gymwysterau a enillwyd yn flaenorol
Fyddwn ni'n gallu addasu ar gyfer anghenion ychwanegol yn ystod y sesiwn Cwestiwn ac Ateb ar lafar? Nam ar y clyw - byddai angen arwyddo er enghraifft	Mae'r trefniadau lliniaru a'r addasiadau cysylltiedig yn caniatáu addasiadau rhesymol
Cwblhaodd fy nysgwyr 2 Aseiad mewnol y tymor diwethaf, a ellir cyflwyno'r rhain yn awr ar gyfer eu cymhwyster yn dilyn Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA).	Dim ond os cwblhawyd y rhain cyn Mawrth 2020 a bod eich dysgwyr i fod i gwblhau eu cymhwyster erbyn 31 Gorffennaf 2020. Bydd unrhyw ddysgwyr heb aseidiadau digonol cyn 20 Mawrth 2020 yn cwblhau eu cymhwyster yn unol â'r addasiadau a gyhoeddwyd yn ystod gweminar heddiw. Mae hyn yn golygu, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ei bod yn ofynnol i'ch dysgwyr gwblhau nifer o astudiaethau achos (aseidiadau mewnol) a'r Prawf Dewis Lluosog (MCQ).
O ran cymhwyster L4 – fyddwn ni'n derbyn unrhyw weminarau pellach ynghylch canllawiau ar ddatblygu a/neu gyflawni rhaglenni fel y cawsom wrth ddatblygu'r cymwysterau Ymarfer a Chraidd?	<p>Cynhaliwyd y rhaglenni lansio ar gyfer y cymhwyster newydd Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth L4 yn gynharach yn y flwyddyn ond mae'r dec sleidiau ar gael ar dudalennau cymwysterau HCLW.</p> <p>Lansiwyd cymwysterau Ymarfer Proffesiynol L4 ar ôl y cyfyngiadau symud drwy weminar ac felly mae'r deciau ynghyd â recordiad ar gael drwy'r tudalennau cymwysterau perthnasol ar HCLW.</p> <p>Y digwyddiadau nesaf i gefnogi cymwysterau L4 ac L5 fydd rhwydweithiau canolfannau drwy weminar ac rwyf wrthi'n cytuno ar ddyddiadau ar gyfer y rhain a fydd yn blaenoriaethu'r cymhwyster Paratoi L4; Ymarfer Proffesiynol L4 ac Arweinyddiaeth L5.</p> <p>Bydd gweminarau ar gyfer cymwysterau penodol i'r rôl L4 yn cael eu cadarnhau'n fuan.</p>

<p>Trefniadau lliniaru ymarfer - oes angen i ni gynnal asesiad risg cadarn a pharhaus o safleoedd cyflogwyr er mwyn cadarnhau y gallwn/na allwn wneud arsylwadau wyneb yn wyneb</p>	<p>Mae gennych ddyletswydd gofal i aseswyr a dysgwyr ac felly mae'n rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i asesu risg. Bydd deialog rheolaidd â chyflogwyr yn eich helpu i ddeall sut mae cynnydd lleol yn effeithio arnynt ac unrhyw oblygiadau uniongyrchol neu barhaus sy'n deillio o fesurau lleol/cenedlaethol.</p> <p>Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ynglŷn â lleoliadau dysgwyr a mynediad i aseswyr ond nid oes atebion hawdd nac uniongyrchol i'r rhain. Bydd y camau lliniaru y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd o fudd i rai dysgwyr, y rhai sy'n cael eu cyflogi'n bennaf ond mae arwyddion hefyd bod rhai cyflogwyr yn awyddus i groesawu dysgwyr sydd angen lleoliadau.</p> <p>Yn anffodus, ar hyn o bryd mae pethau'n hylifol iawn ac yn amrywio o leoliad i leoliad ledled Cymru.</p>
<p>Mae ein canolfan ar gau tan 31 Mawrth felly gallwn wneud cais am y sesiwn holi ac ateb o bell sy'n ymwneud â'r astudiaethau achos gan fod rhai dysgwyr wedi cwblhau'r holl astudiaethau achos ymarfer ac wedi mynd drwy'r holl adnoddau unedau a ddarparwn</p>	<p>Gan fod eich canolfan ar gau am fwy na 4 mis byddwch yn gallu gwneud cais i ddefnyddio'r sesiwn holi ac ateb o bell unwaith y bydd ar gael. Byddwn yn diweddar gwefan HCLW cyn gynted ag y gallwn fel bod y broses ar gyfer gwneud cais ac ati yn hygyrch ac yn glir i gwsmeriaid.</p>
<p>Fyddai aseswyr yn y gweithle'n gallu gweithredu fel Tystion Arbenigol os nad ydynt am ymgymryd â rôl aseswyr llawn eto?</p>	<p>Byddent, ond bydd angen i'r ganolfan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth gadarn. Bydd y Consortiwm hefyd yn cyflwyno hyfforddiant penodol ar gyfer tystiolaeth llygad-dyst, trafodaeth broffesiynol a gloywi aseswyr.</p>
<p>A fydd yn ofynnol i dyst arbenigol wneud nifer yr arsylwadau a nodir yn y pecyn/llawlyfr asesu? Hefyd, a oes bwch o wythnos rhwng pob arsylwad?</p>	<p>Rhaid cefnogi'r dysgwyr o hyd i gwblhau'r daith asesu llawn fel y nodir yn y Pecyn Asesu. Yr unig wahaniaeth yw y byddwn, mewn rhai amgylchiadau, yn derbyn arsylwad o'r dasg gan y Tyst Arbenigol yn hytrach na chadw at y gofyniad mandadol, sef gan asesydd cymwysedig.</p>
<p>Ar gyfer yr ymarfer gall dysgwyr gyflwyno gwaith ysgrifenedig ar gyfer cwestiynau gwybodaeth?</p>	<p>Y strategaeth asesu ar gyfer cymwysterau POB Ymarfer yw drwy'r tasgau ysgrifenedig, y log myfyriol a'r drafodaeth broffesiynol. Ni ddylai canolfannau fod yn troi meini prawf asesu yn gwestiynau gwybodaeth. Dylai dysgwyr fod yn tynnu sylw at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gan ddefnyddio myfyrio a holi ac ateb llafar yn dilyn arsylwad. Yr ydym wedi datgan dro ar ôl tro ym mhob digwyddiad NAD yw'r arfer o wahanu meini prawf gwybodaeth a dealltwriaeth yn arfer da a'i fod yn rhywbeth y dylai pob canolfan ei osgoi.</p>
<p>Gweler sleid 8, ydi nifer yr astudiaethau achos wedi newid ar gyfer craidd cyfunol o 4 i 5?</p>	<p>Camgymeriad oedd hwn ac mae wedi'i gywiro. Mae angen pedair astudiaeth achos ar gyfer y Craidd cyfunol</p>
<p>Gyda'r holl drefniadau lliniaru a oes disgwyl y bydd canolfannau'n cynnal asesiad arferol lle bo modd heb ddefnyddio trefniadau lliniaru cyn belled â bod diogelwch yn cael ei sicrhau o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi dweud yn ddiweddar y dylai'r rhan fwyaf o ddysgu</p>	<p>Nac oes, nid oes disgwyl hyn. Bydd y dysgwyr a gofrestrwyd cyn 01 Awst wedi bod o dan anfantais oherwydd Covid-19 ac felly mae ganddynt yr hawl i gael mynediad at asesiad wedi'i addasu drwy drefniadau lliniaru. Gall y dysgwyr ddewis cwblhau'r gofyniad asesu llawn ond rhaid i'r ganolfan beidio â</p>

fod yn digwydd wyneb yn wyneb. Os felly, sut y caiff hyn ei fonitro?	mynnu hyn.
Fel gyda'r cam blaenorol, ydym ni'n gallu parhau i ddefnyddio taenlen i gasglu gwybodaeth am ddatganiadau ar gyfer carfan o ddysgwyr?	Byddwn yn uwchlwytho ffurflen ddatganiad newydd i ddysgwyr yn fuan – RHAID i ganolfannau ddefnyddio'r ffurflen newydd a fydd ar gael YN FUAN ar dudalennau Covid-19 ar wefan HCLW.
Ar gyfer y cymhwyster ymarfer, a oes angen y 2 arsylwad cychwynnol o hyd? Dyma'r arsylwadau sy'n ychwanegol at y 4 o fewn y tasgau	Oes mae angen y rhain o hyd ond gall yr asesydd neu'r Tyst Arbenigol eu gwneud.
Gan ddefnyddio technoleg i olrhain cynnydd dysgwyr, a alla aseswyr gasglu tystiolaeth ddogfennol drwy negeseuon electronig/e-byst gan ddefnyddio caniatâd ac ati, ac nid trwy ddefnyddio gwybodaeth bersonol	Rhaid i chi gael systemau ar waith sy'n eich galluogi i sicrhau cyfrinachedd tystiolaeth y dysgwyr felly ni fyddwn yn argymhell bod tystiolaeth yn cael ei rhannu drwy e-bost oni bai bod dogfennau'n cael eu diogelu gan gyfrinair. E-bortffolio yw'r llwybr a ffefrir ond gallwch greu dropbox sy'n ddiogel a gellir cyfyngu mynediad yn unol â'n gofynion ar dudalen 53 o Lawlyfr y Ganolfan
Ydi'r drafodaeth broffesiynol/y tyst arbenigol yn gallu cefnogi'r 2 asesiad blaenorol ar gyfer y cymhwyster ymarfer	Tysy Arbenigol yw'r dull asesu y gellir ei ddefnyddio yn lle arsylwi gan aseswyr. Mae trafodaeth broffesiynol yn ymwneud â thrionglu tystiolaeth – ni ddylid ei defnyddio yn lle arsylwi gan aseswyr o dan unrhyw amgylchiadau.
Os oes gan ddysgwyr gymhwyster Plant a Phobl Ifanc Lefel 3 a'u bod bellach yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion, oes angen iddynt ymrestru ar gyfer ymarfer a chraidd?	Mae angen cwrs ychwanegol o Ddyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru os bydd gweithwyr yn newid rolau h.y. byddai angen i'r rhai sydd â chymhwyster Plant a Phobl Ifanc Lefel 3 gwblhau Dyfarniad Gwerthoedd ac Egwyddorion Gofal Cymdeithasol Cymru (Oedolion)
Methais y canllawiau hynny yr ydych newydd gyfeirio atynt ynglŷn â chaniatáu i Aseswyr gael mynediad i'r gweithle. Mae rhai o'n Cyflogwyr yn caniatáu hyn. Hoffwn wirio'r canllawiau yr ydych newydd gyfeirio atynt... allech eu hailadrodd os gwelwch yn dda?	Rhaid i aseswyr ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Gellir gweld y rhain yn uniongyrchol ar wefan Llywodraeth Cymru neu ar dudalennau Covid-19 ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/y-wybodaeth-diweddaraf-am-coronafeirws-covid-19 Rhaid i ganolfannau ddilyn canllawiau cenedlaethol a lleol bob amser. Os oes modd cael mynediad i weithleoedd yna gall asesu aildechrau ar gyfer y cymwysterau Ymarfer ond rhaid i ganolfannau barhau i fod yn wylidwrus a sicrhau bod asesiadau risg digonol ar waith a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru bob amser.
Fyddai trefniadau lliniaru yn cynnwys dysgwyr sy'n byw ymhell i ffwrdd o'r ganolfan? Fel arfer, byddai'r asesydd yn teithio allan at y cyflogwr, ond ar hyn o bryd ni ystyrir bod hyn yn rhywbeth a ganiateir	Fel arfer, ni fyddai unrhyw bellter yn cael ei ystyried oherwydd dyma'r model busnes a ddewiswyd gan eich canolfan. Y tro hwn, fodd bynnag, y broblem yw nad yw'r asesydd yn gallu cael mynediad i'r gweithle ac felly'r opsiwn nesaf yw a all y dysgwr deithio i'ch

	<p>canolfan ac felly dylid ystyried hyn yn y lle cyntaf. Gallwch weithio drwy'r trefniadau lliniaru sydd ar gael YN UNIG os oes rhesymau dilys na all y dysgwr gymudo – gan gynnwys a yw hyn yn gost y gall y ganolfan ei hysgwyddo ar ran y dysgwr.</p> <p>Yng ngoleuni hynny, mae'n rhaid i chi ystyried aildrefnu asesiad hyd nes y gallwch gael mynediad – hyd at 4 mis a cheisio cytundeb i wneud hynny gan y cyflogwr a'r dysgwr. Mae angen rhesymau dilys pam nad yw'r opsiwn hwn yn briodol. Os yw'r rhesymau hyn yn bod, yna gallwch wneud cais am sesiwn holi ac ateb o bell ar gyfer yr asesiad mewnol.</p>
--	--